

# Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Abertawe 2019

## Crynodeb i'r Cyhoedd



Wedi'i ysgrifennu mewn Cymraeg syml



# Beth yw Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae?

Yn 2010 roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod chwarae'n hanfodol ar gyfer pob plentyn a phobl ifanc a dywedodd wrth bob cyngor yng Nghymru i asesu a oes cyfleoedd chwarae 'digonol'.

Mae'r Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) yn cynnwys dangosyddion y mae pob cyngor yn sgorio'i hunain yn eu herbyn fel a ganlyn; **Gwyrdd** os yw wedi'u bodloni'n llwyr, **Ambr** os yw wedi'u bodloni'n rhannol a **Choch** os nad yw wedi'u bodloni.

Mae'n rhaid i Gyngor Abertawe gwblhau PSA bob 3 blynedd, ar ôl cwblhau un yn 2013, 2016 a nawr yn 2019.

Gwneir hyn drwy ofyn i bobl a ydynt yn teimlo bod ganddynt ddigon o gyfleoedd chwarae - plant a phobl ifanc yn bennaf, ond rydym hefyd yn gofyn i'w rhieni/gofalwyr a'r rheini sy'n ymwneud â sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael yn ogystal â'r cyhoedd.

Mae'r Aseiad yn edrych ar yr hyn y mae Cyngor Abertawe yn ei wneud, felly mae'n edrych ar yr holl dimau a gwasanaethau sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae i weld a ydynt yn helpu i alluogi cyfleoedd chwarae neu beidio. Mae hefyd yn edrych ar sut mae partneriaid y trydydd sector yn chwarae eu rhan.



*\*Roedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cydnabod bod chwarae'n mynd i'r afael â thlodi plant a gosododd ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol*

*† Caiff pob term sy'n cynnwys y symbol hwn ei esbonio ar ddiwedd y ddogfen*



# Sut gwnaethon ni?

Mae'r PSA wedi'i rannu yn 9 rhan - Materion A - Ff. Mae Mater A yn edrych ar boblogaeth ac felly'n gofyn am ein barn am gyfansoddiad Abertawe ond nid oes unrhyw dargedau. Mae Mater B yn edrych ar feysydd penodol.

*Ar gyfer pob un, bu'n rhaid i ni ddweud a ydym wedi bodloni'r targed, wedi bodloni'r targed yn rhannol neu heb fodloni'r targed. Wrth gwrs, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ardal gyfan wedi'i bodloni'n llawn, felly, lle rydym yn dweud hynny, mae'n golygu bod mwy o rannau ohoni wedi'u bodloni'n llawn nag eraill.*

## Mater B - Diwallu anghenion amrywiol

- ***Sut rydym yn helpu'r rheini y mae angen cefnogaeth arnynt i gael mynediad at gyfleoedd chwarae?***

***Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn rhannol***

Mae Abertawe'n gwneud llawer i gefnogi'r rheini y mae angen cefnogaeth arnynt, yn enwedig plant a phobl ifanc ag anabledau ac anghenion ychwanegol. Rydym yn gweithio llawer gyda'r rhai sy'n eu cynrychioli, megis rhieni/gofalwyr

*Mae bron yn amhosib bodloni'r dangosydd hwn yn llawn am fod bob amser mwy i'w wneud.*

## Mater C - Y lle sydd ar gael i blant chwarae

- ***A oes digon o leoedd chwarae i blant allu chwarae?***

***Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn***

Rydym yn gwneud llawer i ddarparu parciau a lleoedd chwarae ac rydym yn llwyddiannus am fod pawb yn siarad â'i gilydd ac yn gweithio ar sut i ddarparu ar gyfer chwarae yn y modd gorau.

## Mater Ch- Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

- ***Pa mor dda yw ein cyfleoedd chwarae gyda staff?***

***Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn***

Mae gan Abertawe ystod eang o gynlluniau chwarae a phrosiectau eraill lle ceir cyfleoedd i chwarae. Fodd bynnag, gyda llai o arian mae llai o glybiau a gall hyn fod yn broblem y tro nesaf.

## Mater D - Ffioedd am ddarpariaeth chwarae

- ***Faint o gyfleoedd chwarae y mae angen i chi dalu amdanynt?***

***Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn***

Rydym yn ceisio sicrhau bod cynifer â phosib o gyfleoedd i chwarae am ddim ac yn ceisio chwalu'r rhwystrau sy'n ymwneud â chost.



## Mater Dd - Mynediad i le/ddarpariaeth

- *Sut rydym yn helpu'r rheini y mae angen cefnogaeth arnynt i gael mynediad at gyfleoedd chwarae?*

*Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn rhannol*

Rydym yn gwneud llawer i helpu plant i gael cyfleoedd chwarae, yn enwedig pan fo ganddynt anghenion ychwanegol.

*Gallem fod yn gwneud llawer mwy i wneud ein ffyrdd a'n cymunedau'n fwy diogel er mwyn i blant fynd o le i le.*

## Mater E - Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae

- *A oes digon o leoedd chwarae i blant allu chwarae?*

*Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn*

Mae Abertawe'n elwa o gael llawer o bobl sy'n dangos diddordeb mewn chwarae ac mae ganddynt yr hyfforddiant, yr wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi chwarae. Mae hyn yn cynnwys rhieni a gweithwyr proffesiynol mewn ardaloedd eraill.

*Wrth i gyllideb leihau, mae pryder y bydd llai o bobl yn gweithio ym maes chwarae.*

## Mater F - Ymgysylltu â'r gymuned a'i chyfranogiad cymunedol

- *Pa mor dda yw ein cyfleoedd chwarae gyda staff?*

*Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn*

Mae Abertawe'n gwerthfawrogi barn plant a phobl ifanc, a'u barn am eu hawliau i chwarae ac maent yn cael eu cynnwys ym mhopeth sy'n ymwneud â chwarae.

Rydym hefyd yn gweithio'n dda gydag oedolion i ofyn iddynt am ei barn ac i'n helpu i gynllunio ar gyfer cyfleoedd chwarae.

## Mater Ff - Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol

- *Faint o gyfleoedd chwarae y mae angen i chi dalu amdano?*

*Rydym wedi bodloni'r targed hwn yn llawn*

Mae hwn wedi bod yn llwyddiant aruthrol, gyda mwy o wasanaethau a pholisïau'n ystyried cyfleoedd chwarae a sut mae'n rhan allweddol o'r hyn maent yn ei wneud.

*Mae'n anodd bodloni rhai camau PSA sy'n ymwneud ag agor tiroedd yr ysgol ar gyfer chwarae a darparu yswiriant ar gyfer prosiectau chwarae yn Abertawe.*



# Beth ddywedoch chi wrthym ni?

- ar y cyfan roedd plant a phobl ifanc yn teimlo bod ganddyn nhw lawer o gyfleoedd i chwarae.
- Roedd eu rhieni a'u gofalwyr yn teimlo'r un peth.
- Parciau yw hoff lefydd chwarae plant a phobl ifanc o hyd.
- Yn ôl plant, y prif reswm nad ydynt yn gallu cael cyfle i chwarae yw am eu bod yn 'rhy brysur'.
- Yn ôl yr oedolion, costau a diffyg offer yw'r prif rwystr sy'n atal y plant rhag chwarae.
- Roedd y rheini sy'n gweithio yn y maes chwarae yn teimlo bod mwy o bobl yn dechrau gweld pam fod chwarae yn bwysig.



Sesiwn chwarae ar y stryd yn y Clâs

## Beth sy'n mynd yn dda?

### Gwrando ar bobl a gweithio gyda nhw

Wrth wneud penderfyniad am gyfleoedd chwarae, gofynnir wrth blant a phobl ifanc am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Ond, gall rhieni/gofalwyr a phobl eraill sydd â diddordeb mewn chwarae fod yn rhan o'r penderfyniadau ynghylch chwarae.

### Pobl yn dechrau gwerthfawrogi chwarae!

Mae timau a gwasanaethau eraill y cyngor yn gofyn i'r rheini sy'n ymwneud â'r maes chwarae ddod i gyfarfodydd a helpu i gynllunio syniadau newydd! Maen nhw'n dechrau gweld y byddai meddwl am chwarae yn eu helpu, sy'n wych!

Mae llawer o bobl yn dechrau sylweddoli nad yw'n ymwneud â 'chwarae yn unig' a bod chwarae'n helpu plant a'u teuluoedd mewn sawl ffordd, gan gynnwys cefnogi'r rheini sy'n profi anhawster fel ymyriad†.

### Rydym yn 'Adennill Chwarae'

Yn aml mae pobl yn dweud nad yw plant yn mynd allan i chwarae am nad yw'n ddiogel, bod eu rhieni ddim yn caniatáu iddyn nhw fynd, bod y ffyrdd yn brysur a rhesymau eraill. Rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i ddatrys y pethau hyn fel y gall plant fynd allan i chwarae!



## Gall pob un ohonom chwarae ein rhan!

Er bod gweithwyr chwarae ar gael i gefnogi chwarae, gall rheini, neiniau a theidiau, athrawon, yr heddlu a bron pawb arall, helpu plant i chwarae. Rydym yn gweithio gyda chynifer o bobl â phosib i'w helpu i wneud hyn!

## Rydym yn gwneud llawer i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i chwarae

Yn Abertawe rydym bob amser wedi ceisio sicrhau nad yw anabledd neu angen arall yn rhwystro unrhyw un rhag cael mynediad i chwarae. Roedd cael y siglen gyntaf ar gyfer cadeiriau olwyn mewn parc cyhoeddus yn Abertawe o ganlyniad i gydnabod hyn.



Agor siglen ar gyfer cadeiriau olwyn ym Mharc Victoria.

## Beth sydd ddim yn gweithio mor dda?

### Nid yw bechgyn yn mynd allan i chwarae!

Y tro hwn, rydym wedi sylweddoli bod gemau fideo yn stopio bechgyn yn enwedig rhag mynd allan i chwarae! Rydym bob amser wedi dweud nad yw'n gymaint o broblem â hynny, ond, am y tro cyntaf mae gemau fideos poblogaidd yn mynd â'u pryd! Wrth gwrs, rydym am gael merched yn chwarae y tu allan hefyd, ond mae'n ymddangos mai bechgyn yw'r rhai y mae angen i ni weithio gyda nhw ar hyn o bryd.

### Llai o arian - llai o chwarae!

Fel y rhan fwyaf o feysydd eraill, mae llai o arian i fynd o gwmpas sy'n golygu bod llai o grwpiau chwarae ar gael. Rydym hefyd wedi colli un o brif gymdeithasau'r trydydd sector, Chwarae'n lawn, yn ystod y cyfnod hwn.

### Mae angen gwneud gwaith ar chwarae mewn ysgolion

Mae plant yn treulio mwy o amser yn yr ysgol nag unrhyw le arall felly yr ysgol sy'n darparu un o'r cyfleoedd gorau i chwarae. Ond, mae plant yn dweud eu bod yn colli cyfleoedd i chwarae os nad ydyn nhw wedi cwblhau gwaith - y targed ar gyfer agor tiroedd ysgol i chwarae yw un o'r targedau anoddaf i'w gyflawni.

### Nid yw pawb yn gwerthfawrogi chwarae

Er bod llawer o wasanaethau'n gweld effaith chwarae, mae ffordd bell i fynd gan nad yw pawb yn gweld gwerth chwarae.



# Beth rydym am ei wneud nawr?

Y peth cyntaf a wnaethom oedd edrych ar y canfyddiadau a llunio Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu broblemau.

Byddwn yn rhoi 3 blynedd i'n hunain i gwblhau'r camau gweithredu felly rydym yn gobeithio y bydd newidiadau cadarnhaol erbyn cyhoeddi PSA 2022!

Er bod 60 o gamau gweithredu, y prif gamau gweithredu a bennwyd yw;

- Parhau i weithio i sicrhau nad oes neb yn colli cyfleoedd i chwarae oherwydd anabledd, angen ychwanegol, lle maen nhw'n byw, eu diwylliant neu unrhyw beth arall
- Ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i blant chwarae yn eu hardal leol
- Helpu pawb, gan gynnwys rhieni a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau, i ddeall pam y mae chwarae mor bwysig
- Cynyddu cyfleoedd i chwarae mewn ysgolion
- Parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc, yn ogystal ag eraill sy'n meddwl bod chwarae'n bwysig wrth benderfynu ar y ffordd orau o annog chwarae yn Abertawe!

Mae angen i ni hefyd edrych ar [Strategaeth Chwarae Abertawe](#). Dyma'r ddogfen sy'n nodi beth sy'n bwysig a pham. Mae'r PSA yn edrych ar a ydym yn gwneud digon i sicrhau bod pawb yn gallu chwarae, ond bydd y strategaeth yn esbonio pam y mae hyn mor bwysig.



Sesiwn Chwarae ym Mharc Dynfant



# Ydych chi am wybod rhagor neu am ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl?

Gallwch ffonio naill ai Stephen Cable, Rheolwr Digonolrwydd Gofal Plant a Chwarae neu Jacki Rees Thomas, Swyddog Datblygu Chwarae ar 01792 635480.

E-bostiwch [chwarae@abertawe.gov.uk](mailto:chwarae@abertawe.gov.uk) neu [Stephen.Cable@abertawe.gov.uk](mailto:Stephen.Cable@abertawe.gov.uk) neu [jackirees.thomas@abertawe.gov.uk](mailto:jackirees.thomas@abertawe.gov.uk)

Er ein bod yn siarad â thimau eraill ac yn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae, mae angen i ni wybod beth yw eich barn CHI ac os nad oes digon o gyfleoedd chwarae, rhowch wybod i ni - mae llawer o'r pethau gwych sydd wedi digwydd o ran chwarae yn Abertawe wedi dod o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rhoi gwybod i ni am yr hyn sydd ar goll yn eu barn nhw.

## Termau allweddol



*Er bod hwn wedi'i ysgrifennu mewn Cymraeg syml, mae rhai geiriau neu dermau y mae'n rhaid i ni eu cadw - fel digonolrwydd! - felly rydym wedi rhoi esboniad ar eu cyfer isod.*

**Ymyriad** - Y gefnogaeth a roddir i berson neu deulu er mwyn atal ei sefyllfa rhag gwaethygu. Gall chwarae fod yn ymyriad!

**PSA** - Yr Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae! Rydym yn ceisio osgoi byrhau enwau, ond efallai bydd angen i ni wneud hynny fel bod dim angen i ni ei ysgrifennu'n llawn bob tro!

**Digonolrwydd** - y gair sy'n cael ei ddefnyddio i fesur a oes 'digon'. Gellir mesur 'digon' yn ôl ffigur a safon - mae'r cwestiwn 'a yw'r cyfleoedd chwarae'n ddigonol?' yr un mor bwysig â 'oes digon o gyfleoedd chwarae?'.

**Y Trydydd Sector** - y term ar gyfer y sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r cyngor neu'n fusnesau fel elusennau. Y 'sector gwirfoddol' yw'r hen enw am hwn.

**CCUHP/Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** - y sefydliad sy'n cydnabod hawliau plant yn fyd-eang, ac mae'r Hawl i Chwarae yn un ohonyn nhw!

